# Amser y Greadigaeth:
# Dŵr a Chyfiawnder – Nodiadau at Bregeth




Llun: United Nations Photo

## Defnyddio Amos yn fan cychwyn

**'Ond llifed barn fel dyfroedd a chyfiawnder fel afon gref.' (Amos 5:24)**

- Yr oedd (ac y mae) dŵr yn brin yng ngwledydd y Beibl. Roedd dŵr llygredig neu hallt yn broblem – dyna pam yr oedd angen nant redegog. O ganlyniad, i ysgrifenwyr y Beibl yn gyffredinol, yr oedd yr achos o blaid dŵr glân, hygyrch mor amlwg fel mai o'r braidd yr oedd angen ei fynegi.
- Gair cyntaf Amos 5.24 yw 'Ond', am fod yr adnod yn cyferbynnu cyfiawnder ag ymddygiad y rhai hynny y mae Amos yn proffwydo iddynt. Cymharwch y weledigaeth hon o gyfiawnder â'r weledigaeth o ddŵr yn llifo o deml Duw i ddwyn 'ffrwyth yn fwyd a dail yn iechyd' (Eseciel 47:12 a'r adnodau blaenorol, Eseciel 47:1-12).
- Yn ei lyfr a gyhoeddwyd yn 1950, *A Town like Alice*, disgrifia Nevil Shute ryfeddod perchennog tir o Awstralia pan glyw fod pobl Prydain yn gadael i ddŵr glân o'u hafonydd redeg i'r môr. Yn y Gorllewin byddwn yn aml yn defnyddio dŵr yn afradlon (gweler y *Daflen Ffeithiau am Ddŵr* ar www.ctbi.org.uk/ctresources).
- Hyd heddiw, ni ddefnyddir dŵr yn gyfiawn. Ystyriwch y mannau o'r byd lle y mae dŵr yn achos gwrthdaro (rhwng Israel a Phalestina dros afon Iorddonen, rhwng India a Bangladesh dros afon Ganges, rhwng sawl gwlad yn Asia lle y mae llynnoedd mawr mewndirol yn sychu, ac ym mharthau uchaf afon Amason).
- Gan faint o bobl dlotaf y byd y mae'r adnoddau dŵr yfed glân yr ydym ni yn y Gorllewin yn eu cymryd yn ganiataol? Nid mater o ffynhonnau a phibellau yn unig yw hwn. Rhaid hefyd leihau'r llygru ar ffynonellau. A lle y mae prosiectau i gronni dŵr afonydd (er enghraifft, yn Ne Ddwyrain Asia, yn Tsieina ac ym masn y Congo) y mae heriau amgylcheddol ac eraill. Eto, anaml y mae'n gwneud synnwyr economaidd i gludo dŵr mewn llong dros bellter mawr. Y gwir yw bod rhai rhannau o'r byd yn cael rhy ychydig o law i gynnal poblogaeth sy'n dibynnu ar y glaw hwnnw, tra bod eraill yn cael digonedd.



Llun: The B's

- Hyd yn oed ym Mhrydain y mae anghyfartaledd. Mae yn y de-ddwyrain hinsawdd sydd (ar raddfa fyd-eang) yn hinsawdd hanner-cras, ond caiff y gogledd a'r gorllewin ddigonedd o law. Oherwydd yr anghyfartaledd hwn, a ddylem ni fod yn gweithredu i leihau'r gofyn am ddŵr yfed glân, efallai trwy ailddefnyddio dŵr gwastraff yn well?

- Gall y newid yn yr hinsawdd effeithio ar hyn mewn pob math o ffyrdd. Mae llawer o wyddonwyr hinsawdd yn darogan mwy o dywydd eithafol. Fe all y gwêl cenedlaethau'r dyfodol lefelau'r môr yn codi (wrth i'r copaon ia feiriol) a hefyd hwyrach lai o law, neu o leiaf lai o law rhagweladwy.
- Yn wyneb hyn oll, sut y gellir dosbarthu adnoddau dŵr y byd yn deg? A beth fyddai nant ddi-baid redegog yn ei olygu i'w bobl dlotaf?

## Defnyddio'r wraig wrth y ffynnon yn fan cychwyn

**"Syr," meddai'r wraig wrtho, "rho'r dŵr hwn i mi, i'm cadw rhag sychedu a dal i ddod yma i dynnu dŵr." (Ioan 4.15)**

- Mae'r syniad o ddŵr nad yw'n darfod nac y mae'n rhaid ei godi o ffynnon yn peri penbleth i'r wraig (Ioan 4.11). Sut beth ydoedd i ferched mewn llawer lle yn y byd orfod treulio rhan helaeth o'u horiau effro yn ymofyn dŵr o ffynhonnau pellennig? Beth am y rhai sy'n dal i wneud hynny heddiw? Gweler, er enghraifft, Y daith hir i nôl dŵr, Dŵr a glanweithdra, Mae mor hawdd anghofio cymaint o wyrth yw dŵr . Beth fyddai'r merched hyn yn ei feddwl o'r cyflenwad diderfyn o ddŵr yfed o'r tap yr ydym ni mor gyfarwydd ag ef?
- Beth y gelwir arnom i'w wneud fel 'na fydd syched byth', yn llythrennol na delweddol, ar bobl y byd heddiw?



Llun: Gates Foundation

### Adnoddau beiblaidd eraill

Y mae yn y Beibl sawl man cychwyn posibl i fyfyrdod ar ddŵr. Dyma rai enghreifftiau:

- Gwahanu tir a dŵr yn stori'r creu Genesis 1:2 a 6-9; Salm 24:2; Salm 136:6)
- Y dilyw (Genesis 6–9)
- Delweddaeth y Testament Newydd am aileni o ddŵr, peth ohoni (fel Ioan 3:5 ac 1 Pedr 3:20) yn adleisio stori'r dilyw
- Defnyddio dŵr i buro (Lefiticus 14:8, 2 Brenhinoedd 5:1-19, Mathew 27:24, Marc 7.3), gan gynnwys golchi traed (Luc 7:44; Ioan 13:1-20) a phwll Siloam (Ioan 5:2-18)
- Cynnig dŵr i westai (Job 22:7 a Mathew 10:42) a'r wraig wrth y ffynnon (Ioan 4:7-42)
- Delweddu bedydd ym mhob un o'r pedair efengyl (Mathew 3, Marc 1:9-11, Luc 3:15-22 ac Ioan 1:19-28)
- Afonydd eschatolegol (Eseciel 47:1-12, Amos 5.24 a Datguddiad 21:6 a 22:1).

Ysgrifennwyd y nodiadau hyn gan Dudley Coates, pregethwr lleol yng Nghylchdaith Fethodistaidd Bridport a Dorchestera chyn-Is-Lywydd y Gynhadledd Fethodistaidd.

**www.ctbi.org.uk/creationtime**